



# Llefydd Llonydd Peaceful Places

Crwydro Tiroedd Sanctaidd Gogledd Ceredigion  
Exploring the Sacred Landscapes of North Ceredigion

## Adolygiad Llefydd Llonydd Adroddiad Terfynol Tachwedd 2017



Cyngor Sir  
CEREDIGION  
County Council



## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
1. Cefndir.....	4
2. Nodau Llefydd Llonydd .....	5
3. Datblygu hanesion .....	7
4. Twristiaeth .....	9
5. Gweithgareddau cyflenwol Ymwelwyr a Busnesau.....	11
6. Bygythiadau a chyfleoedd.....	14
7. Rheolaeth.....	16
8. Adnoddau.....	17
9. Argymhellion.....	18
Atodiad – Disgrifiad Swydd Gweithiwr Prosiect .....	19

## Crynodeb Gweithredol

Llwybr twristiaeth dreftadaeth yw Llefydd Llonydd ([www.peaceful-places.com/cy](http://www.peaceful-places.com/cy)) a lansiwyd yn 2014. Casgliad o 17 o eglwysi a chapeli dros ogledd Ceredigion yw'r llwybr a phob un ohonynt gyda'i stori ei hun. Lleolir yr 17 mewn rhai o'r mannau prydferthaf yng Ngheredigion - o'r arfordir i'r ucheldiroedd - ac yn tywys ymwelwyr ar daith lle gallant ddarganfod bywyd gwyllt, harddwch naturiol, hanes teuluol a hyd yn oed ddigwyddiadau a llwyddiannau dynol. Mae'r daith yn arwain ymwelwyr at esiamplau o bensaernïaeth, celf a chrefftwriaeth ryfeddol ac, mewn ambell i leoliad, yn cynnig teithiau cerdded hyd lwybrau natur/barddoniaeth fel Eglwys San Mihangel, Llandre. Comisiynwyd Consultancy.coop LLP i gynnal astudiaeth ar y canlynol:

- Adolygu'r sefyllfa bresennol o ran gweithgareddau gweithredol dyddiol 'Llefydd Llonydd' a'r hyn sydd yn bodoli eisoes.
- Adolygu safle presennol ac asesu anghenion cynrychiolwyr Llefydd Llonydd yn y dyfodol, er mwyn gwireddu'r prosiect yn llawn.
- Adnabod modelau addas ar gyfer rheolaeth barhaus y prosiect 'Llefydd Llonydd', er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.
- Ystyried dulliau cyffredinol ar gyfer cynllunio olynol a rhannu'r arferion da a nodwyd yn yr adroddiad.

Credwn y dylai ffocws dyfodol 'Llefydd Llonydd' ganolbwyntio ar ddau nod:

- Datblygu'r eglwysi a'r capeli fel asedau cymunedol ac, yn ddelfrydol, fel lleoedd addoli.
- Hyrwyddo Twristiaeth sydd â manteision economeg canlyniadol i gwmnïau ac atyniadau sefydledig a newydd i'r ardal.

Mae angen Swyddog Datblygol rhan amser ar 'Llefydd Llonydd' (0.4 FTE) i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd a'i ddatblygu.

Mae'n bwysig - beth bynnag a benderfynir parthed y sefydliad cynnal – bod yna Bwyllgor Llywio Llefydd Llonydd cryf sy'n canolbwyntio ar set o egwyddorion arweiniol clir, ac yn medru darparu cyfarwyddyd i'r Swyddog Datblygu.

Fel prosiect, awgrymwn y dylai Llefydd Llonydd ganolbwyntio ar y canlynol:

- Perffeithio y cynnig twristiaeth y mae'n darparu
- Gweithio gyda chwmnïau twristiaeth preifat lleol
- Gweithio gyda chymunedau lleol er mwyn; helpu pobl leol i werthfawrogi'r ased y mae'r eglwys neu'r capel yn cynrychioli yn eu hardal; datblygu defnydd o'r eglwysi at ddiben secwlar yn ogystal â chrefyddol; paratoi i symud rhai o'r asedau yma i berchenogaeth y gymuned leol.

## 1. Cefndir

Llwybr twristiaeth dreftadaeth yw Llefydd Llonydd ([www.peaceful-places.com/cy](http://www.peaceful-places.com/cy)) a lansiwyd yn 2014. Casgliad o 17 o eglwysi a chapeli dros ogledd Ceredigion yw'r llwybr a phob un ohonynt gyda'i stori ei hun. Lleolir yr 17 mewn rhai o'r mannau prydferthaf yng Ngheredigion - o'r arfordir i'r ucheldiroedd - ac yn tywys ymwelwyr ar daith lle gallant ddarganfod bywyd gwyllt, harddwch naturiol, hanes teuluol a hyd yn oed ddigwyddiadau a llwyddiannau dynol. Mae'r daith yn arwain ymwelwyr at esiamplau o bensaernïaeth, celf a chrefftwriaeth ryfeddol ac, mewn ambell i leoliad, yn cynnig teithiau cerdded hyd lwybrau natur/barddoniaeth fel Eglwys San Mihangel, Llandre.

Bwriad gwreiddiol Llefydd Llonydd oedd cynyddu proffil eglwysi a chapeli yn yr ardal ar gyfer ymwelwyr a phobl leol gan gadw'r eglwysi/capeli ar agor i'r cyhoedd. Cynlluniwyd datblygiad y clwstwr er mwyn annog ymwelwyr i weld lleoedd sanctaidd, nid yn unig fel lleoliad sanctaidd ond hefyd o bersbectif gwahanol; fel lleoedd i dreulio amser o ansawdd mewn lleoliad heddychlon. Derbyniodd pob un o'r 17 eglwys a chapel amrywiaeth o ddeunyddiau deongliadol, gan gynnwys ffrâm croesawu siâp A, hysbysfwrdd deongliadol allanol a phanel mewnol yn disgrifio hanes yr adeilad a'i bobl.

Comisiynwyd Consultancy.coop LLP i gynnal astudiaeth ar y canlynol:

- Adolygu'r sefyllfa bresennol o ran gweithgareddau gweithredol dyddiol 'Llefydd Llonydd' a'r hyn sydd yn bodoli eisoes.
- Adolygu safle presennol ac asesu anghenion cynrychiolwyr Llefydd Llonydd yn y dyfodol, er mwyn gwireddu'r prosiect yn llawn.
- Adnabod modelau addas ar gyfer rheolaeth barhaus y prosiect 'Llefydd Llonydd', er mwyn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir.
- Ystyried dulliau cyffredinol ar gyfer cynllunio olynol a rhannu'r arferion da a nodwyd yn yr adroddiad.

Yn ystod yr adroddiad hwn, rydym wedi cyfweld â nifer o gwmnïau lleol sy'n ymwneud â thwristiaeth ac wedi ymweld â'r holl eglwysi a chapeli y prosiect. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cwrdd â rhai o'r swyddogion a gweithredwyr eglwysig.

## 2. Nodau Llefydd Llonydd

Bwriad gwreiddiol Llefydd Llonydd oedd:

*“i godi proffil eglwysi a chapeli yn yr ardal ar gyfer ymwelwyr a phobl leol gan gadw’r eglwysi/capeli ar agor i’r cyhoedd. Cynlluniwyd datblygiad y clwstwr er mwyn annog ymwelwyr i weld lleoedd sanctaidd, nid yn unig fel lleoliad sanctaidd ond hefyd o bersbectif gwahanol; fel lleoedd i dreulio amser o ansawdd mewn lleoliad heddychlon.”*

Ein sylw ni yw bod gan Llefydd Llonydd sawl nod sy’n anghyson â’i gilydd:

1. Cadw adeiladau gyda hanes diddorol
2. Parhau i addoli yn adeiladau hŷn
3. Cadw ased i’r gymuned
4. Annog twristiaeth
5. Annog gweithgaredd Cymunedol
6. Creu swyddi yn lleol

Y mae hwn yng nghyd-destun:

- Cynulleidfaoedd bach sy’n heneiddio – fel arfer 8-10 – yn yr ardaloedd gwledig. Y mae cynulleidfaoedd yr ardaloedd mwy trefol, fel Aberystwyth a Llanbadarn, yn fwy.
- Ychydig iawn o’r gymuned ehangach sy’n gweld eglwys fel man addoli.
- Prinder offeiriaid, sydd eisoes wedi eu gwasgaru dros ardal eang.

Canolir twristiaeth Ceredigion ar yr arfordir yn bennaf, gyda’i draethau a’i feysydd carafanau. Mae cyfran fawr – dros 80% yn fusnes ailadroddus, yn aml i’r un bwthyn, gwely a brecwast, gwersyll neu garafán. Mae’r prosiect yn apelio at yr hyn y mae Croeso Cymru yn cyfeirio ato fel Fforwyr, categori y mae nhw ac adran twristiaeth Cyngor Ceredigion yn awyddus i’w annog.

Gall cynnig twristiaeth bod:

- a. Wedi ei seilio ar ffydd
- b. Yn ysbrydol yn yr ystyr ehangaf
- c. Yn hanesyddol
- ch. Ynghlwm wrth natur
- d. Yn yr awyr agored – cerddwyr / beicwyr
- dd. Yn rhywle i fynd.

Mae’r rhesymau dros y prosiect yn amlweddog, ac rydym wedi ceisio cyfeirio at rai o’r materion hynny yn yr adroddiad hwn:

- *I gadw'r eglwys ar agor*
  - Rhaid bod digon o blwyfolion i gynnal gwasanaethau
  - Rhaid bod digon o blwyfolion i gynnal grŵp gwirfoddoli
  - Rhaid ei bod yn gynaliadwy o ran arian
  - Rhaid iddi fod yn rhan o'r gymuned
- *I ddenu ymwelwyr*
  - Angen bod yn hawdd ei darganfod gydag arwyddion clir
  - Rhaid bod y wybodaeth a ddarperir yn gynhwysfawr – mae gan ymwelwyr gwahanol ddiddordebau gwahanol
  - Angen iddi fod ar agor pan maent yn ymweld
  - Angen bod yn hawdd mynd ati gyda chcludiant priodol, boed yn gar, bws, beic neu gerdded.
- *I groesawu'r ymwelwyr yna*
  - Angen digon o le i'r ymwelwyr, gan gynnwys yr anabl  
Angen lle i barcio ceir yn agos, wedi'i farcio'n glir, yn ogystal â man i gadw beic yn ddiogel
  - Angen cynnig rhai cyfleusterau hanfodol; lluniaeth a thai bach ar y safle neu'n agos
  - Dylai arddangosfeydd a gwybodaeth fod yn ddigonol er mwyn i'r ymwelydd oedi yno
  - Digon o seddi tu allan
- *I gefnogi'r gymuned yn ariannol*
  - Rhaid cysylltu â busnesau, siopau, tafarnau, gwestai, caffis a thai bwyta lleol
  - Angen cyd-weithio gydag atyniadau lleol eraill
  - Angen hwyluso gweithgareddau cymunedol eraill ar y safle

## **Argymhellion**

Er mwyn eglurder, credwn y dylai ffocws Llefydd Llonydd yn y dyfodol gael ei seilio ar ddau nod:

- Datblygu'r eglwysi a'r capeli fel asedau cymunedol ac, yn ddelfrydol, fel mannau addoli
- Hyrwyddo Twristiaeth gyda manteision economaidd canlyniadol ar gyfer busnesau ac atyniadau lleol newydd ac sydd eisoes yn bodoli

### 3. Datblygu hanesion

Man cychwyn prosiect Llefydd Llonydd, a theithiau tebyg o amgylch y Deyrnas Unedig, yw bod gan eglwysi a chapeli hanesion unigryw a dyluniad sy'n ddi-ddorol tu hwnt i nifer fawr o bobl buasai'n falch i'w hymweld pan glywant am eu union leoliad. Gwaetha'r modd, nid fel hyn y mae hi mewn cymdeithas fwyfwy seciwlar. Y sialens yw eu gwneud yn fwy diddorol trwy greu straeon cyffrous, gosod eglwysi a chapeli mewn cyd-destun hanesyddol a diwylliannol, ac yna eu hyrwyddo a'u marchnata.

Nid yw hyn mor frawychus ag y mae'n swnio, oherwydd mae prawf bod yn le cyhoeddus i'r straeon hyn, fel y gwelwyd gan boblogrwydd rhaglenni teledu megis Poldark a Game of Thrones – mae elfennau ohonynt i'w gweld yng ngogledd Ceredigion. Mater o gasglu'r deunyddiau sydd eisoes ar gael a datblygu strategaeth farchnata all gynnig profiadau diddorol i'r bobl leol yn ogystal â thwristiaid.

Y mae Llefydd Llonydd wedi gwneud cynnydd mawr ac wedi bywiogi'r un deg saith o eglwysi a chapeli dan sylw, ond mae yna rai gwendidau creiddiol:

- Mae nifer o straeon difyr yn gysylltiedig â phob eglwys, ond nid oes un stori i'w uno â'i gilydd. Mae ymwelwyr yn derbyn un deg saith disgrifiad byr a map, ond dim modd o ddewis yn rhwydd p'un sy'n debygol o'u diddori. Gall themâu gynnwys:
  - Hanes cloddio plwm. Nid yw'n amlwg bod gogledd Ceredigion yn ardal ôl-ddiwydiannol. Cloddiwyd hanner y plwm a ddefnyddiwyd yn oes Victoria yng nghanolbarth Cymru. Mae'r eglwysi a'r capeli yn rhan hanfodol o hanes cymdeithasol yr ardal hon.
  - Yr eglwysi canoloesol. Mae hyn yn cysylltu rolau y Tywysogion Cymreig, y Normaniaid, Urdd y Mynaich Gwynion ac yn cyd-fynd â'r datblygiadau cyffrous a gynlluniwyd ar gyfer Ystrad Fflur.
  - Eglwysi yr Ucheldiroedd. Efallai bod hyn yn tynnu ar Ddarluniaeth y ddeunawfed ganrif, pan symudodd y Daith Fawr i diroedd gwylltach y Deyrnas Unedig wrth i Napoleon rwystro mynediad i Ewrop.
  - Mannau Ysbrydol. Y ffynhonnau sanctaidd a'r cysylltiadau i ysbrydolrwydd cyn Cristnogaeth, sy'n aml yn gysylltiedig â lleoliadau'r eglwysi yr ydym yn gweld heddiw.

Mae'n rhaid gwneud hi'n haws i gyrraedd yr hanesion hyn:

- Mapiau syml gyda phellter ac amser wedi nodi arnynt
- Awgrymiadau am deithiau hunan-dywys am ddiwrnod cyfan neu hanner diwrnod gydag awgrymiadau ar gyfer seibiant i gael coffi a chinio ar hyd y ffordd, gan wneud yn sicr bod y mannau yna ar agor.
- Datblygu amserlen ddiffiniedig yn ystod adegau allweddol o'r flwyddyn. Er enghraifft, cyflwyniad yn Eglwys A am 10.00 bob yn ail Ddydd Mawrth ac yna cyflwyniad yn Eglwys B am 11.30 ac Eglwys C

am 2.00 ac Eglwys D am 4.00. Y cyflwyniadau hyn i gael eu hyrwyddo ar wahân, ac fel rhan o'r daith.

- Gall ymestyn thema ysbrydol Llefydd Llonydd a'u galw'n bererindodau fod yn ddyfais farchnata newydd. "Pererindod hanner diwrnod yn dilyn olion traed Dafydd ap Gwilym".
- Mae angen i bob eglwys fod ar agor a dylai bod digon wybodaeth ar gael i wneud hi'n werth chweil ymweld yno. Dylai'r wybodaeth gynnwys hanesion sy'n ymwneud â hanes y pentref a'r plwyf, nid yr eglwys yn unig. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar y byrddau ar hyn o bryd. Gellir cefnogi'r rhain gydag arweinyddion clywedol, apiau ffonau clyfar yn ogystal â mwy o wybodaeth ar bapur.
- Mae parcio yn hynod o bwysig ym mhob eglwys. Po bynnag yr ydym yn hyrwyddo twristiaeth werdd, daw'r mwyafrif o ymwelwyr mewn car. Mae parcio yn rhai o'r eglwysi yn gyfyngedig iawn. Gall ambell eglwys annog defnyddio bysiau. Lle nad yw'n bosibl cynnig parcio ar dir yr eglwys, mae angen arwyddion clir i faes parcio addas gerllaw.

I grynhoi: datblygu ffyrdd mwy hwylus i dwristiaid gyrraedd Llefydd Llonydd

1. Llwybrau byr gyda thema (pererindodau) – 3 awr / 6 awr gyda chyfarwyddiadau clir wedi eu hamseru.
  - Deunyddiau wedi eu hargraffu
  - Apiau ffonau clyfar
  - Gwybodaeth well ar y wefan
2. Ym mhob eglwys
  - Gosodiadau clywedol.
  - Deunydd ysgrifenedig gwell sy'n trafod ystod eang.
  - Mwy o wybodaeth ar Apiau Ffonau Clyfar trwy dechnoleg pegynau neu 'bannau'.
  - Trefniadau hir-dymor ar gyfer agor a chau a gofalu am adeiladau.
  - Adolygiad o drefniadau parcio.

Angen llawer mwy o wybodaeth ym mhob lleoliad. Mae llawer o hanes heb ei hyrwyddo yn y deunydd cyhoeddusrwydd (e.e. sgrîn ffoaduriaid Gwlad Belg yn Llanfihangel y Creuddyn). Yn benodol, nid yw hanes yn y mynwentydd wedi ei gyhoeddi. Mae hyn yn gyfle mawr i'r farchnad achau. Allfudodd niferion o Geredigion i'r Unol Daleithiau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae eu disgynyddion am ddilyn eu gwreiddiau.

Mae cyfle i weithio gyda myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant. Er enghraifft, gall hanes pob eglwys fod yn brosiect doethuriaeth. Cynigir cyrsiau ysgrifennu creadigol, drama a ffilm yn y ddwy brifysgol ar lefel is-raddedig ac ôl-raddedig.



## 4. Twristiaeth

Mae hyrwyddo'r cynnig twristiaeth i ogledd Ceredigion yn anodd tu hwnt heblaw am yr arfordir. Mae'n anodd denu y nifer fawr o ymwelwyr rheolaidd o'r traethau. Os ydynt yn mentro allan, byddant yn ymweld ag un neu ddau leoliad pob blwyddyn o'u haroshiad yn unig. Mae'r nifer o dwristiaid sy'n archwilio, yn fach ar y cyfan ac mae'n anodd gweld sut y gellir ehangu hyn heb fwy o gyhoeddusrwydd cenedlaethol.

Un broblem yw'r proffil isel sydd i'r ardal yng Nghymru, heb sôn am weddill y Deyrnas Gyfunol neu'n bellach byth i ffwrdd. Does dim adnabyddiaeth brand gan Fynyddoedd Y Cambria, wrth gystadlu â Bannau Brycheiniog neu Eryri.

Er hynny, dylai bod yn bosibl i adeiladu brand 'Llefydd Llonydd' fel brand Pererindod yn ei rinwedd ei hun - a dylid hefyd ystyried gweithio gyda sefydliadau twristiaeth Pererindod ar draws y Deyrnas Gyfunol er mwyn hyrwyddo'r cysyniad yma.

Mae'r farchnad teithiau tywys yng ngogledd Ceredigion yn fach, yn dameidiog, a heb ddatblygu digon. Mae Llefydd Llonydd, ynghyd ag atyniadau twristiaid eraill yng ngogledd Ceredigion, yn adnodd defnyddiol i helpu hyn i ehangu.

Mae modelau gwahanol o deithiau tywysedig yn bosibl:

- Defnyddio bysiau neu fysiau bach
- Twristiaid i yrru eu ceir eu hunain mewn trefn / dan arweiniad
- Gyrru eu hunain gan ddilyn ap sy'n rhoi cyfarwyddiadau manwl trwy GPS
- Tywyswyr yn cwrdd mewn manau penodol a drefnwyd o flaen llaw

Gall model busnes posib fod yn gydweithrediad o dywyswyr preifat. Neu, gall hyn fod yn estyniad deniadol i'r rhwydwaith fysiau cymunedol sydd eisoes yn bodoli.

Mae profiadau mewn llefydd eraill (Llydaw<sup>1</sup>) wedi dangos y gall rhaglen o deithiau tywys o gwmpas pentrefi bychan - sydd yn amlach na heb yn cynnwys eglwys leol yn ogystal ag atyniadau lleol eraill fel tai diddorol, ffynhonnau, ffyrnau cymunedol, a.y.b. - yn medru bod yn gymharol lwyddiannus gydag ariannu cyfyngedig gan awdurdodau lleol.

Gall datblygu'r farchnad dwristiaeth dywysedig:

- Ddod â'r cwmnïau preifat at ei gilydd i drafod cyfleoedd
- Arwain at ystyried partneriaeth neu fodel cydweithio
- Ymestyn y gwasanaeth bws Cymunedol
- I gychwyn, efallai taw cynnal cyfarfod gydag unrhywun sydd â diddordeb er mwyn trafod y posibilïadau yw'r opsiwn gorau

---

<sup>1</sup> <http://www.morbihan-tourism.co.uk/muzillac/visites-et-circuits-du-patrimoine-avec-jacques-hazo/tabid/8387/offreid/507ed4b4-580d-42a7-9f1c-311b5822090f>

- Efallai buasai'n addas cynnal astudiaeth ddichonoldeb penodol ar ddatrysiad gall gynnwys mwy o gyrchfannau ar draws ardal ehangach.

Gall Cydweithrediad tywyswyr / Menter Gymdeithasol fod yn fodd o wneud Llefydd Llonydd yn gynaliadwy yn ariannol.

Mae angen cysylltiadau i fusnesau lleol er mwyn gwerthu iddynt, a darparu gwasanaethau ar gyfer twristiaid/pererinion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fusnesau Bwyd a Llety. Mae hyn yn galw am broses fapio, adnabod bylchau a gweithio'n rhagweithiol gyda busnesau er budd i bawb.

Yn yr oes fodern, cynyddol seciwlar hon, mae nifer o bobl yn chwilio am ystyr ychwanegol i'w bywydau - a tra bod Llefydd Llonydd yn annhebygol o gyrraedd yr uchafion hyn mae'r diddordeb ymysg pererinion i ddilyn taith Camino wedi peri Michelin i gynhyrchu llawlyfr twristiaid<sup>2</sup> i'r 278,000<sup>3</sup> ddilynodd y llwybr y llynedd.

Gall y prosiect hefyd gefnogi themâu blynyddol Croeso Cymru - 2018 Blwyddyn y Môr a 2019 Blwyddyn Darganfod.

---

<sup>2</sup> <https://www.amazon.co.uk/Camino-Santiago-Michelin-booklet-Kaarten/dp/2067148052>

<sup>3</sup> <https://www.csj.org.uk/the-present-day-pilgrimage/pilgrim-numbers/>

## 5. Gweithgareddau Cyflenwol Ymwelwyr a Busnesau

Mae'n rhaid i 'Llefydd Llonydd' gyd-fynd â, ac ychwanegu gwerth i dwristiaeth, cymuned a budd economaidd yr ardal. Yn gryno, rhaid bod 'Llefydd Llonydd' yn cynyddu'r cyfalaf cymdeithasol.

Mae gweithgareddau i gyd-fynd â hyn yn cynnwys;

Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur

Cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer creu atyniad mawr i ymwelwyr sy'n cynnwys:

- Olion yr Abaty sydd dan ofal Cadw.
- Y fynwent sy'n atyniad i achwyr ledled y byd.
- Y ffermdy a'r adeiladau allanol a gaiff eu troi mewn i ganolfan ddehongli ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol ac amaethyddol yr ardal.
- Cyd-destun ysbrydol y Ffynhonnau Sanctaidd Hynafol yng Nghwm Ffrwd.

Bydd hi'n sawl blwyddyn cyn i'r prosiect gael ei wireddu, ond bydd yn adlewyrchu yr hyn y mae Llefydd Llonydd yn ei gynrychioli.

### Capeli ac Eglwysi Eraill

Efallai na fydd gweithio gyda'r 17 o eglwysi a chapeli presennol, a chanolbwyntio yn unig ar ogledd Ceredigion yn creu digon o arian. Dylid ystyried ychwanegu eglwysi yn ne Ceredigion a chynnwys lleoliadau eraill, yn ogystal â Llwybr y Mynaich Gwynion a lleoliadau Y Gwyll.

Mae sawl man addoli wedi dangos diddordeb mewn ymuno â'r prosiect, megis eglwys San Pedr ym Machynlleth, a'r eglwys ym Mhenrhyncoch.

Nid yw'r diddordeb ymysg y capeli anghydfurfiol cystal ond gallai ehangu'r cynnig. Capel amlwg ac enwog yw Soar y Mynydd, capel mwyaf diarffordd Cymru yn ôl pob sôn.

### Biosffer Dyfi

Enwebir biosfferau gan lywodraethau cenedlaethol ac mae angen iddynt gyflawni tri nod:

- Cadwraeth - amddiffyn bywyd gwylt, yr amgylchedd a chynefinoedd.
- Datblygiad - annog economi a chymuned gynaliadwy;
- Addysg - cefnogi ymchwil, monitro, a datblygu rhwydweithiau byd-eang i rannu a dysgu.

Yn yr ardaloedd hyn, mae UNESCO yn gofyn i gymunedau brofi ac arddangos dulliau arloesol o gynnal bywoliaethau, diwylliant ac economïau sydd wedi eu seilio ar amgylchedd iachus. Mae gan Biosffer Dyfi Gynllun Twristiaeth a Chynllun Cyfathrebu.

### **Y Borth – Libanus 1877**

Capel wedi ei addasu i fod yn i sinema a chaffi/tŷ bwyta ar Stryd Fawr Y Borth, gyda byrddau y tu allan. Efallai y gall hwn fod yn bartner busnes preifat i gefnogi eglwysi a chapeli Llefydd Llonydd.

### **Ffynhonnau Sanctaidd**

Siaradom gyda Phil Cope, awdur sawl llyfr am ffynhonnau sanctaidd yng Nghymru, yn ogystal ag adroddiadau diweddar ar gyfer prosiect “Ffynhonnau Byw” Cadwch Gymru’n Daclus. Teimla fod nifer o gyfleoedd i hybu’r ffynhonnau yn Llandre ac Eglwys Fach, yn ogystal ag eraill (rhai heb eu hadnabod) sy’n bodoli ar y llwybrau rhwng yr eglwysi. Byddant yn ychwanegu cryn dipyn o ddiddordeb i unrhyw daith neu bererindodau sy’n cael eu datblygu.

### **Ffordd y Mynaich Gwynion**

Mae hon yn fenter gefnogol amlwg wedi’i anelu at gerddwyr. Ar hyd y llwybr mae Ystrad Fflur, Ysbyty Cynfyn a Chwmystwyth. Nid yw eglwysi eraill Llefydd Llonydd ar y llwybr yma ond mae Hafod ac Eglwys Fach gerllaw.

Byddai ymgorffori hanes y Mynaich Gwynion a’u ffordd o fyw yn ychwanegu at yr apêl i dwristiaid.

### **Mynydd Arian – Amgueddfa Mwynglawdd Arian Llywernog**

Mae’r amgueddfa fwynglawdd hon wedi bod ar agor ers blynyddoedd ond nawr yn cael ei hadnewyddu o dan dîm rheoli newydd. Mae Lucy Walford, arweinydd newydd a brwd eu Tîm Atyniad yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau gyda theithiau o amgylch yr eglwysi sy’n gysylltiedig â’r mwyngloddiau arian/plwm.

### **Peter Stevenson a Huw Davies**

Storiwr ac awdur sy’n arbenigo mewn straeon lleol, hanes a chwedlau yw Peter. Gweithiodd ar brosiect Storybus ar gyfer Biosffer. Cymerodd amser i ddatblygu ond roedd yn llwyddiant yn y diwedd. Teithiodd y bus o amgylch yr ardal yn ymweld a stopio. Roedd y cyfranogwyr yn 50/50 pobl leol a thwristiaid.

Arweinydd Bathodyn Glas Croeso Cymru yw Huw. Mae’n gweithio i unigolion sy’n ei ddarganfod ar safle swyddogol, a hefyd cwmnïau bysiau sy’n ymweld â’r ardal. Y mae wedi gweithio ledled Cymru.

### **Cambrian Safaris**

Mae Richard Smith yn cynnal teithiau pwrpasol mewn Landrover Discovery â saith sedd, sydd yn gerbyd trwyddedig i logi, ac yn gadeirydd Pentir Pumlumon.

### **Pentir Pumlumon**

Grŵp gwirfoddol di-elw â'r nod o "wella pethau yng ngogledd Ceredigion". Cwmni cyfyngedig dan warant ydyw, a sefydlwyd gan bobl busnes lleol. Mae'r grŵp yn cyflogi Swyddog Datblygu rhan amser sy'n gweithio o Bontrhydygroes. Mae tua 35 o fusnesau lleol yn y grŵp, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â thwristiaeth mewn un ffordd neu'i gilydd.

### **Darparwyr Llety**

Mae ymwelwyr i'r ardal yn chwilio am lefydd diddorol i ymweld â nhw yn barhaus. Felly, mae'n hanfodol bod profiad Llefydd Llonydd yn cael ei hysbysebu gan y gwestai a'r lletyau Gwely a Brecwast. Bydd mwy o ymwelwyr yn cael eu denu oherwydd y cymwysterau gwell megis Hafod Arms ym Mhontarfynach sydd wedi ei adnewyddu a Nanteos.

## 6. Bygythiadau a chyfleoedd

Mae'n rhaid bod dyfodol hir-dymor yr eglwysi a'r capeli hyn yn sail pryder.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi bod yn perffeithio ei strategaeth ar gyfer y prinder offeiriaid wedi eu hordeinio, a lleygwyr sy'n addoli'n rheolaidd yn heneiddio yn yr ardal hon. Y realiti yw na fydd hyn yn parhau fel ag y mae ar hyd o bryd. Beth fydd yn digwydd i'r adeiladau diddorol a'u hanes? Mae nifer o gapeli anghydfurfiol eisoes wedi eu hadnewyddu at ddefnydd gwahanol, ond llai o eglwysi hyd yma.

Mae'n glir o'r newidiadau diweddar i offeiriaid yn yr ardal a'r tueddiadau o ran mynychu'r eglwys y bydd yr Eglwys Yng Nghymru yn cael trafferth i gynnal ei eglwysi i gyd yn yr ardal. Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, mae mwy na 10 eglwys Anglicanaidd y flwyddyn wedi cau yng Nghymru - [www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41175879](http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-41175879).

Heblaw am Aberystwyth a Llanbadarn, sydd o fewn ardaloedd trefol mwy, mae niferoedd yr addolwyr yn isel ac yn heneiddio. Nid yw hyn yn sefyllfa gynaliadwy. Tra nad oes unrhyw gwestiwn ar hyn o bryd fod eglwysi Llefydd Llonydd am gau, teimlwn taw dim ond mater o amser yw hynny.

Gall Llefydd Llonydd bod yn ddatrysiad er mwyn cadw'r adeiladau hyn ar agor i'w defnyddio gan y gymuned ac yn ddelfrydol, trwy gynnal darpariaeth addoli. Gall hyn fod mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Eglwys Cenedlaethol sy'n annhebygol o fod eisiau defnyddio adnoddau mawr mewn ardal ddaearyddol fychan, a Chymdeithas Ymwelwyr a Thwristiaid Eglwys.

Dylai bod yna gynlluniau wrth gefn yn awr. A dylid sefydlu ymddiriedolaeth elusennol er mwyn eu mabwysiadu? A oes yna gorff cenedlaethol sy'n bodoli'n barod all helpu? A oes rôl yma i Bentir Pumlumon sydd eisoes yn gwarchod asedau eiddo yn yr Ucheldiroedd?

Gwaetha'r modd, efallai mai'r bygythiad o gau yw'r unig ffordd o dynnu sylw'r gymuned ehangach. Does dim byd yn well am ysbrydoli gweithred gymunedol na'r bygythiad o golli ased hyd yn oed os nad yw'r unigolion sy'n gweithredu wedi dangos diddordeb o'r blaen.

Yn edrych i'r hir-dymor o ran perchnogion neu reolwyr adeiladau:

1. Efallai y gellir perswadio'r eglwys i brydlesi neu drosglwyddo perchenogaeth am bris isel neu ddim cost pe bai modd arddangos trefniadau ar gyfer gofalu a defnydd cymunedol.
2. Trosglwyddwyd sawl adeilad diangen a thiroedd segur o berchnogaeth gyhoeddus dros y chwe blynedd diwethaf o dan gynlluniau ariannu Trosglwyddo Asedau Cymunedol sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Fawr y Loteri. Mae'r cynlluniau hyn wedi talu am y costau adnewyddu a chyllid cychwynnol. Gwelwyd hwy'n llwyddiannus o ran gwella bywyd cymunedol yng Nghymru ac maent yn debygol o barhau mewn rhyw ffordd.

Mae enghreifftiau yn cynnwys Neuadd Tref Llangefni, Ynys Môn, ac Institiwt Glynebwy, Blaenau Gwent.

3. Mae diogelu adeiladau at ddefnydd y gymuned wedi bod yn boblogaidd iawn ac yn llwyddiannus drwy ariannu torfol ar-lein. Cafodd canolfan gymunedol ym Mhontypridd ei hariannu fel hyn.
4. Y mae yna hefyd bosiblwydd o greu mater Cyfran Gymunedol. Ledled Cymru, mae nifer o gymunedau sydd yn berchen ar siopau pentref, tafarnau, a ffermydd gwynt. Esiampl neilltuol o dda yw'r 4CG yn Aberteifi sydd, ymhlith pethau eraill, yn rheoli y meysydd parcio a thai bach cyhoeddus; a Galeri a dyfodd o Gwmni Tref Caernarfon, a oedd yn berchen ar a datblygu siopau ac adeiladau eraill yng nghanol y dref - cyn adeiladu canolfan celfyddydau llwyddiannus tu hwnt.

Mewn sawl achos lle adnewyddwyd eglwysi neu gapeli at ddiben cymunedol, mae hi wedi bod yn bosibl parhau i'w defnyddio ar gyfer addoli. Esiampl dda o hyn yw'r Feelgood Factory a reolir gan Bryncynon Revival Strategy Ltd yn Rhondda Cynon Taf, capel sydd wedi'i throï'n ganolfan gymunedol a chynadleddau lle mae'r gynulleidfa leol yn cynnal ei gwasanaethau Dydd Sul.

## 6. Rheolaeth

Pa ffurf y dylai rheolaeth Llefydd Llonydd mabwysiadu yn y dyfodol a pha sefydliadau ddylai ei ddatblygu?

Mae'n bwysig beth bynnag y penderfyniad parthed corff cynnal bod Pwyllgor Llywio Llefydd Llonydd cryf sy'n canolbwyntio ar set o egwyddorion arweiniol clir, ac yn medru darparu cyfarwyddyd i'r Swyddog Datblygu.

- **Treftadaeth Llandre** sydd wedi cynnal Llefydd Llonydd hyd yn hyn, ond mae'r ymddiriedolwyr yn amharod i barhau i roi o'u hadnoddau prin yn y dyfodol a byddai'n well ganddynt drosglwyddo i sefydliad arall. Fodd bynnag, mae'r rhaglen bresennol wedi ymestyn nodau'r elusen i, neu y tu hwnt i'w chyfyngiadau.
- Mae gan **Menter Mynyddoedd y Cambria** y dasg ehangach o ddatblygu Mynyddoedd y Cambria, yn amaethyddol – cig oen, gwlan a chig eidion – yn ogystal ag annog twristiaeth a datblygiad economaidd. Mae'n canolbwyntio yn bennaf ar yr ucheldiroedd.
- Mae **Biosffer Dyfi a Ecodyfi** yn gweithio yng ngogledd yr ardal, ond wedi bod yn canolbwyntio ar faterion amgylcheddol. Fodd bynnag, mae canllawiau UNESCO yn galw am gydnabyddiaeth o dreftadaeth a diwylliant a gall Llefydd Llonydd fod yn addas.
- Amcan **Pentir Pumlumon** yw gwella datblygiad economaidd yr ucheldiroedd. Dim ond rhan o ardal 'Llefydd Llonydd' yw hyn ond gallai ddarparu lleoliad da cychwynnol ar gyfer y Gweithiwr Datblygu.

Yn yr hir-dymor, rydym yn awgrymu creu hanfod newydd a allai, pe bai'r amseru yn berffaith, gymryd rheolaeth/perchenogaeth o rai o'r eglwysi. Gall hwn fod yn elusen gyda nodau ynghlwm wrth:

- Addysgu'r cyhoedd am dreftadaeth ysbrydol Ceredigion
- Annog datblygiad economaidd wedi'i seilio o amgylch adeiladau crefyddol ac adeiladau hanesyddol eraill yng Ngheredigion
- Rheoli tir ac adeiladau er lles cymuned Ceredigion

Bodola elusennau mewn ffurfiau cyfreithiol gwahanol, rhai yn well na'i gilydd am ddal tir a benthyg arian, rhai sy'n well am dderbyn grantiau o gyrff eraill, a rhai sydd wedi eu creu yn arbennig ar gyfer materion Cyfran Gymunedol. Awgrymwn ystyried yn ofalus yr opsiynau sydd ar gael cyn ffurfio elusen. Mae hwn yn faes ble mae gennym brofiad a gallwn fod o gymorth i chi.



## 7. Adnoddau

Mae Llefydd Llonydd yn dibynnu ar un person egniol sy'n cydnabod bod angen pasio hyn i eraill. Nid oes gwirfoddolwr amlwg i'w olynu. A oes yna ffynhonnell o arian posib a fuasai'n caniatáu hysbysebu am, a chyflogi cydgysylltwr prosiect?

Mae'r prosiect Llefydd Llonydd angen Swyddog Datblygu i adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni eisoes a'i ehangu. Mae buddsoddwyr posib yn chwilio am ganlyniadau ac argraff penodol sy'n seiliedig ar fudd cymdeithasol neu ariannol yn hytrach nag ariannu swydd. Felly, dylai ceisiadau ariannol drafod y gweithgareddau a gynlluniwyd a'u manteision, a bod y swydd yma'n hanfodol i hyn, yn hytrach na gofyn am arian i gefnogi'r swydd. Dylai swydd ran amser - 0.4 FTE fod yn ddigon.

Atodir disgrifiad swydd. Seiliwyd ar ddrafft gan Peter Midmore.

Mae ffynhonnellau ariannol posib ar gyfer datblygu teithiau twristaidd a phererindodau yn cynnwys y canlynol:

- Dylid gwneud cais am dâl a chostau'r Gweithiwr Datblygu i raglen LEADER Ceredigion. Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw Rhagfyr 11eg, felly buasai'n bosibl ystyried bydd yna weithiwr yn ei le ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.
- Mae Cronfa Rhannu Treftadaeth o Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnig grantiau hyd at £10,000 a byddai'n ffynhonnell dda ar gyfer ariannu mapiau a dehongli.
- Ar gyfer creu'r straeon perthnasol ar gyfer y llefydd a'r themâu, y ffynhonnell fwyaf amlwg yw Cyngor Celfyddydau Cymru a'i bartneriaid, Llenyddiaeth Cymru a Cyngor Llyfrau Cymru. Gall hwn fod ar gyfer prosiect adrodd stori penodol neu ar gyfer talu awdur preswyl.
- Elusen leol yw Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen gyda'r nodau hollol berthnasol:  
*“...dyrchafu, annog a hyrwyddo crefydd, addysg, y Celfyddydau ac amaethyddiaeth a dibenion elusennol eraill er budd Cymry yn bennaf yng Nghymru”.*
- Mae gan The Heritage Alliance gyfeirlyfr cynhwysfawr ar [www.theheritagealliance.org.uk/fundingdirectory/main/fundinghome.php](http://www.theheritagealliance.org.uk/fundingdirectory/main/fundinghome.php).
- Mae nifer o ymddiriedolaethau elusennol sydd â diddordeb mewn Treftadaeth a'r Celfyddydau, er enghraifft, y Paul Hamlyn Foundation.

Hefyd, gall adrannau ffilm a drama Prifysgol Aberystwyth fod yn adnoddau gwerthfawr, yn ogystal â'r adrannau perthnasol ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbed. Gall myfyrwyr gymryd rhan er enghraifft drwy ddefnyddio'r straeon fel pwnc ar gyfer eu traethodau.

## 8. Argymhellion

Fel prosiect, awgrymwn y dylai Llefydd Llonydd ganolbwyntio ar:

- a. Archwilio'r cynnig twristiaeth mae'n darparu
  - i. Rhannu'r 17 eglwys i lwybrau ag iddynt themâu – Cloddio plwm, Canoloesol, Ucheldiroedd, Darluniadwy a.y.b.
  - ii. Creu straeon gyda naratif cryf a'u tynnu at ei gilydd.
  - iii. Creu mapiau syml i deithwyr annibynnol boed hwy ar droed, beic, neu gar er mwyn dilyn y straeon hyn drwy ymweld â llefydd allweddol a dysgu mwy.
  - iv. Creu profiadau hanner diwrnod neu ddiwrnod cyfan wedi'u seilio ar y straeon thematig yma, i gynnwys mannau o ddiddordeb eraill ar hyd y daith.
  - v. Dylai'r eglwysi bod ar agor ar gyfer ymwelwyr gyda chyflwyniad ysgrifenedig a chlywedol o'r straeon
  - vi. I ategu hyn, gellir darparu pwyntiau diffiniedig pan fydd unigolyn ar gael ym mhob eglwys i egluro'r hanes ac ateb cwestiynau.
- a. Gweithio gyda darparwyr twristiaeth preifat lleol
  - vii. Bydd pob taith angen seibiant ar gyfer lluniaeth, canol bore, amser cinio a chanol y prynhawn.
  - viii. Bydd rhai ymwelwyr am gael teithiau wedi eu trefnu gyda thywyswr gwybodus. Gall hyn fod ar fws bach neu yng ngheir yr ymwelwyr eu hunain, yn dilyn tywyswr gydag esboniadau ym mhob safle.
  - ix. Gweithio gyda darparwyr llety lleol a fyddai'n gweld 'Llefydd Llonydd' fel ychwanegiad defnyddiol i'w cynnig.
  - x. Mae o ddiddordeb i'r darparwyr twristiaeth yma i gyfrannu tuag at y prosiect o ran amser, arbenigedd ac arian.
- b. Gweithio gyda chymunedau lleol i
  - xi. Helpu pobl leol i weld gwerth yn yr ased y mae'r eglwys neu gapel yn cynrychioli yn eu cymuned.
  - xii. Gweithio gyda'r gymuned leol i ddatblygu defnydd ehangach o'r eglwysi at ddiben seciwlar yn ogystal â chrefyddol.
  - xiii. Paratoi i fynd â rhai o'r asedau hyn i berchnogaeth y gymuned leol.

## Atodiad – Disgrifiad Swydd Gweithiwr Prosiect

Llefydd Llonydd - (rhan amser, 0.4 FTE)

Grŵp o 17 Eglwys a Chapel yng ngogledd Ceredigion yw *Llefydd Llonydd*, sydd â'r nod o gynyddu eu proffil ymysg ymwelwyr a phobl leol trwy gadw'r adeiladau'n agored i'r cyhoedd ac adrodd straeon am eu lle mewn treftadaeth a diwylliant lleol. Mae'r Pwyllgor Rheoli yn dymuno penodi Swyddog Datblygu rhan amser i fwrw ymlaen ag argymhellion adolygiad cychwynnol diweddar.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu tuag at reolaeth a gwelliant strategol y fenter *Llefydd Llonydd*, yn enwedig drwy ymestyn y rhwydwaith presennol, gwella'r marchnata a sefydlu cysylltiadau â mentrau datblygu cydnaws eraill a busnesau preifat cysylltiedig. Ein nod yw i benodi unigolyn brwdfrydig, awyddus gyda hanes profedig mewn datblygu cymunedol neu weithgareddau cysylltiedig. Dylai ef / hi feddu ar sgiliau eiriolaeth, rhwydweithio, cyfathrebu a hwyluso rhagorol gyda'r gallu i weithio gydag ystod eang o randdeiliaid, ac yn ddelfrydol, gyda rhywfaint o brofiad o adnabod ac ymgeisio am ffynonellau cyllid newydd.

I wneud ymholiadau anffurfiol am y swydd yma, cysylltwch â Dr Roger Haggart ar [rogerhaggart@llandre.org.uk](mailto:rogerhaggart@llandre.org.uk)

Manylion pellach:

Cyd-ariannwyd *Llefydd Llonydd* gan CADW a'r ERDF i "godi proffil eglwysi a chapeli yn yr ardal i ymwelwyr a phobl leol trwy gadw'r eglwysi / capeli ar agor i'r cyhoedd. Dyluniwyd datblygiad y clwstwr i annog ymwelwyr i weld lleoedd cysegredig nid yn unig fel lleoliad ysbrydol ond hefyd o safbwynt gwahanol; fel lleoedd i dreulio amser o ansawdd mewn lleoliad heddychlon".

Mae gan nifer o'r eglwysi a'r capeli sy'n aelodau drefniadau elfennol ar gyfer cadw'n agored i ymwelwyr a datblygu eu rôl ymhellach fel asedau cymunedol. Prif dasg cyntaf y sawl a benodir fydd dod o hyd i ffyrdd o hyrwyddo ymgysylltiad y cymunedau cyfagos i gynnal a datblygu'r fenter *Llefydd Llonydd*.

Ar hyn o bryd, mae straeon pob eglwys a chapel sy'n aelod ar wahân, ac ail brif dasg y sawl a benodir fydd datblygu themâu a llwybrau cysylltiol a all ddarparu naratif troswaol. Bydd yr elfen hon o'r swydd yn gofyn am ddatblygu ceisiadau am gyllid pellach, mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Rheoli, i gefnogi gweithgareddau marchnata ychwanegol ac isadeiledd.

Gallai'r fenter elwa o integreiddio'n well â gweithgareddau tebyg eraill yng ngogledd Ceredigion. Prif dasg olaf y sawl a benodir fydd i archwilio cyfleoedd i gydweithio ac adnabod strategaethau ar gyfer gweithredu gyda chyrff di-elw a busnesau preifat gydag amcanion cydnaws.

Bydd y swydd hon wedi ei lleoli adref gyda digon o adnoddau ar gael ar gyfer teithio a threuliau. Bydd y sawl a benodir yn adrodd i gadeirydd y Pwyllgor Rheoli ym y man cyntaf, ac yn mynychu cyfarfodydd Cyngor Aelodau'r fenter.

Disgrifiad o'r Person

Hanfodol	Yn ddymunol
<p><b>Cymwysterau</b></p> <p>Addysg hyd at lefel gradd</p>	<p>Gradd neu gymhwyster arall mewn maes perthnasol (datblygiad cymuned neu debyg)</p>
<p><b>Profiad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• O leiaf pum mlynedd o brofiad o weithio gyda chymunedau lleol</li> <li>• Profiad o ddatblygu prosiectau a mentrau newydd</li> <li>• Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr a'u datblygu</li> <li>• Profiad o reoli cyllidebau a chyfrifon ar gyfer arian cyhoeddus</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Profiad o gomisiynu cyflenwyr</li> <li>• Profiad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol</li> <li>• Profiad o adeiladu partneriaethau llwyddiannus gydag asiantaethau gwirfoddol a statudol</li> <li>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o gymunedau gogledd Ceredigion</li> <li>• Gwybodaeth am sut y mae eglwysi a chapeli yn gweithredu</li> </ul>
<p><b>Sgiliau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefel uchel o sgiliau trefniadol a gweinyddol</li> <li>• Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a llunwyr polisi</li> <li>• Yn gallu defnyddio mentrusrwydd a gweithio gyda'r lleiafswm o oruchwyliaeth</li> <li>• Y gallu i fod yn hyblyg wrth ymateb i heriau newydd</li> <li>• Y gallu i reoli amser yn effeithiol a chyflwyno adroddiadau manwl gyda dyddiadau cau llym</li> <li>• Trwydded yrru lawn, ddilys y DU neu hawl cyfwerth i yrru yn y DU</li> </ul>	
<p><b>Iaith Gymraeg</b></p> <p>Dealltwriaeth o ac empathi tuag at bwysigrwydd natur ddwyieithog treftadaeth a diwylliant gogledd Ceredigion</p>	<p>Sgiliau llafar ac ysgrifenedig da trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg</p>